CYFARFOD PENDERFYNIADAU DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

DYDD Iau, 27 Chwefror 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: L.M. Stephens (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
A Clarke, Partner Busnes Arweiniol (AD)
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 2.20 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR THE 5ED GORFFENNAF, 2019

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 5ed Gorffennaf, 2019 yn gofnod cywir.

3. POLISI ABSENOLDEB SALWCH

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad ynghylch y Polisi Absenoldeb Salwch diweddaraf. Roedd y Polisi wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn sylwadau gan undebau llafur cydnabyddedig drwy Fforwm Corfforaethol Cysylltiadau â'r Gweithwyr ac ymgynghoriad dilynol â'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau a rheolwyr pobl yr Awdurdod.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y polisi diweddaraf ac awgrymodd y newidiadau canlynol:

- 1.0 Cyflwyniad – dylid cynnwys y canlynol yn y paragraff olaf -*"ystyried symud drwy'r weithdrefn absenoldeb salwch ar sail y wybodaeth sydd ar gael"* a/neu gymryd camau disgyblu, fel y bo'n briodol.

- 9.1 Cyfarfod Cefnogi'r Gweithiwr (ESM) – dylid cynnwys y gallai Skype fod yn ddull priodol o gynnal y cyfarfod.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd uchod, gymeradwyo'r Polisi Absenoldeb Salwch diweddaraf.

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL **DYDDIAD**